



---

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**  
**30 Gorffennaf 2021**

---

**TEITL:** *Brand a Gwefan*

**AWDUR:** *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio*

---

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Diweddarau'r Bwrdd Uchelgais ar y gwaith o ddatblygu'r wefan a'r brand newydd.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Cadarnhau'r brand newydd arfaethedig ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Datblygwyd gwefan a brand cyfredol y Bwrdd Uchelgais yn ystod dyddiau cynnar sefydlu'r Bwrdd. Gyda'r Cynllun Twf Terfynol wedi'i lofnodi, a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn symud i wedd cyflawni prosiectau'r Cynllun Twf, mae'n amserol diwygio ac ail-lansio'r brand a'r wefan.

4.2. Mae'r logo cyfredol wedi dyddio ac nid yw'n adlewyrchu natur uchelgeisiol y Bwrdd Uchelgais yn nhermau trawsffurfio economi'r Gogledd. Mae'r wefan gyfredol yn cael ei lletya gan Busnes Cymru ac mae'n profi'n gymhleth i bobl ei defnyddio, ac eto nid yw'n adlewyrchu ein huchelgais ar gyfer y rhanbarth.

4.3. Comisiynwyd Tinint gan y Swyddfa Rheoli Portffolio i ail-frandio a datblygu gwefan newydd yn sgil proses tendro lwyddiannus ar GwerthwchiGymru. Roedd y briff yn nodi'r angen am frand ffres, arloesol, uchelgeisiol a phroffesiynol ynghyd â gwefan a fyddai'n rhoi llwyfan i hyrwyddo'r rhanbarth, gwaith y Bwrdd Uchelgais ac i rannu cynnydd a gwybodaeth am y Cynllun Twf.

4.4. Mae Tinint wedi gweithio gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio ar ddatblygu'r brand ers dechrau mis Mawrth. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys adolygu'r logo cyfredol, creu brand (sy'n cynnwys lliwiau, ffont, delweddaeth a chanllawiau brand), deall anghenion ac uchelgeisiau'r rhanbarth ac ystyried amrywiol gysyniadau ac opsiynau ar gyfer y brand.

4.5. Yr enw brand newydd sydd wedi'i ddatblygu yw 'Uchelgais Gogledd Cymru / Ambition North Wales'. Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn parhau fel enw'r corff ffurfiol sy'n gyfrifol am Gynllun Twf Gogledd Cymru. 'Uchelgais Gogledd Cymru / Ambition North Wales' fydd yr enw cyffredinol am y Weledigaeth Twf a'r hyn yr ydym yn ceisio'n gyflawni ar gyfer y rhanbarth.

4.6. Mae'r brand arfaethedig wedi'i gynnwys isod:



Nod y brand newydd yw gwella ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y buddion a'r cyfleoedd y bydd y Cynllun Twf yn eu creu ar gyfer sefydliadau ac unigolion ledled y Gogledd. Mae'n cynrychioli natur gysylltiedig y rhanbarth, gan ganolbwyntio ar allfuddsoddi a mewnfuddsoddi a'n tirwedd rhanbarthol (y môr a'r mynydd).

4.7. Mae'r brand newydd wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Cyflawni Busnes, y Bwrdd Portffolio a Sesiwn Bartneriaethol o'r Bwrdd Uchelgais am adborth.

4.8. Yn ogystal, mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi cynnal ymchwil y farchnad ar y brand newydd. Gwnaed hyn ar Survey Monkey. Roedd y maint sampl yn cynnwys 160 o unigolion o'r sector preifat, pobl ifanc a'r sector cyhoeddus. Ceir crynodeb isod o ddarganfyddiadau'r Ymchwil Marchnad:

- Fe wnaethom ofyn i'r atebwyr 'Beth oedden nhw'n ei feddwl am yr enwau brand a ganlyn: Economi, Uchelgais Gogledd Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru.' Uchelgais Gogledd Cymru oedd yr enw brand a ffafriwyd, a sgoriodd yn uchel yn y sector cyhoeddus (67%) ac ymysg pobl ifanc (65%).
- Rhannwyd tri logo gyda'r atebwyr am adborth, a oedd yn cynnwys yr isod:

Delwedd 1



Delwedd 2



Delwedd 3



Roedd y Sector Cyhoeddus a Phobl Ifanc yn ffafrio Delwedd 1 o dipyn (78% a 77% yn y drefn honno) o gymharu â Delwedd 2, ac roedd y Sector Cyhoeddus a'r Sector Preifat yn ffafrio Delwedd 1 (89% a 65% yn y drefn honno) o gymharu â Delwedd 3. Yn gyffredinol, Delwedd 1 oedd yr opsiwn a ffafriwyd.

- Roedd yr arolwg yn gofyn am adborth pellach ar y logo, y ffont a'r lliwiau. Fe wnaeth arddull y ffont a'r lliwiau dderbyn ymatebion cadarnhaol iawn.



- Fe wnaethom ofyn i'r atebwyr ddisgrifio pa eiriau fydden nhw'n eu cysylltu â'r brand, ac roedd y atebion yn cynnwys:
  - Fe wnaeth y Sector Cyhoeddus ddefnyddio'r ansoddeiriau a ganlyn i ddisgrifio'r brand: Diddorol (77%), Trawiadol (54%), Egniol (54%), Modern (54%) a Corfforaethol (39%).
  - Fe wnaeth Pobl Ifanc ddefnyddio'r ansoddeiriau a ganlyn i ddisgrifio'r brand: Modern (55%), Corfforaethol (54%), Egniol (37%), Diddorol (35%), Ifanc (33%).
  - Fe wnaeth y Sector Preifat ddefnyddio'r ansoddeiriau a ganlyn i ddisgrifio'r brand: Corfforaethol (53%), Modern (46%), Diflas (32%), Egniol (25%), Gwleidyddol (20%).
- Ar ddiwedd yr arolwg, fe wnaethom ofyn i bobl ifanc a fyddent yn hoffi clywed mwy am y cwmni y tu ôl i'r brand hwn, a chytunodd 60% y byddent yn hoffi cael rhagor o wybodaeth.

4.9. Unwaith fydd y brand wedi ei gymeradwyo, bydd canllawiau brand yn cael ei datblygu a rhannu er mwyn gwarchod defnydd priodol y brand.

4.10. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu'r wefan newydd. Y wefan fydd y prif lwyfan i gyfathrebu ac ymgysylltu â chymuned y Gogledd. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn parhau i weithio gyda Tinint i ddatblygu cynnwys y wefan, gyda'r bwriad o lansio tua diwedd yr haf.

## **5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim.

## **6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Drwy fabwysiadu brand o'r math hwn mae angen ei ddiogelu mewn perthynas a'i ddefnydd a defnydd awdurdodedig. Hefyd mae angen sicrhau bod enw da'r Bwrdd Uchelgais yn cael ei gynnal a'i uchafu drwy ddefnyddio'r brand yn briodol ac nad yw'n cael ei danseilio. Mae angen i'r protocolau ar gyfer defnyddio'r brand gael eu nodi a'i rheoli'n glir.

## **7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim.

## **8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Bydd y wefan yn hygyrch gan gydymffurfio â gofynion hygyrchedd diweddaraf yr UE.

8.2. Mae'r canllawiau brand hefyd yn ystyried hygyrchedd.

## **9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIUYD**

9.1. Mae Tinint wedi mynychu a chyflwyno i'r Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 12/03/2021, ac i Gyfarfod Partneriaeth y Bwrdd Uchelgais ar 29/04/2021. Mae diweddariadau/cyflwyniadau ychwanegol wedi'u darparu gan y Cyfarwyddwr Portffolio i'r Bwrdd Cyflawni Busnes ar 13/04/2021 ac i'r Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 30/04/2021.

9.2. Cafodd yr adroddiad hwn ei drafod a'i dderbyn gan y Bwrdd Portffolio ar 16/07/2021.

9.3. Fel yr amlinellwyd uchod, ymgynghorwyd gan ddefnyddio Survey Monkey gyda'r Sector Preifat, Pobl Ifanc a'r Sector Cyhoeddus.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

“Mae fy marn wedi ei osod yn Adran Gyfreithiol yr adroddiad.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

“Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.”